O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2018 Rhif 1411 (Cy. 263)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffyrdd yr A487 a'r A40 (Abergwaun, Sir Benfro) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *20 Rhagfyr 2018* |
| *Yn dod i rym* | *31 Rhagfyr 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A487 a'r darn perthnasol o Gefnffordd yr A40, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd bod gŵyl stryd Nos Galan yn cael ei chynnal ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (Digwyddiadau Arbennig) 1994, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A487 a'r A40 (Abergwaun, Sir Benfro) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 31 Rhagfyr 2018.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(i) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion yr heddlu, y gwasanaeth tân neu'r gwasanaeth ambiwlans;

(ii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â gwaith ar y ffordd neu oleuadau neu arwyddion traffig neu

(**1**) 1984 p.27. Mewnosodwyd adran 16A gan adran 1(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (Digwyddiadau Arbennig) 1994. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

waith brys i unrhyw garthffos neu i unrhyw brif bibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan, neu gyfarpar telathrebu mewn darn o'r ffordd o dan sylw, neu mewn unrhyw dir cyfagos;

(iii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan un o swyddogion awdurdodedig y digwyddiad i gefnogi'r digwyddiad ac am resymau diogelwch;

ystyr "y cefnffyrdd" ("*the trunk roads*") yw Cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor a Chefnffordd yr A40 Llundain i Abergwaun;

ystyr "cyfnod y digwyddiad" ("*event period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 31 Rhagfyr 2018 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y digwyddiad, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**4.** Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn ei dangos.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 2 ddiwrnod ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 20 Rhagfyr 2018

*Richard Morgan*
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLEN
## Y darnau o'r cefnffyrdd yn Abergwaun, Sir Benfro

Y darn o gefnffordd yr A487 o'r enw Main Street sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Sgwâr Abergwaun hyd at ei chyffordd â Hamilton Street.

Y darn o gefnffordd yr A487 o'r enw y Wesh sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Sgwâr Abergwaun hyd at ei chyffordd â'r Slade.

Y darn o gefnffordd yr A40 o'r enw y Stryd Fawr sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Sgwâr Abergwaun hyd at ei chyffordd â'r fynedfa i Archfarchnad y Co-op.

Y darn cyfan o gerbytffordd gylchredol yr A487 Cylchfan Sgwâr Abergwaun.